

Taflen ffeithiau:

Beth sy'n digwydd pan fydd atgyfeiriad yn cael ei wneud i Wasanaethau Plant



Oeddech chi'n gwybod?

Mae gan yr holl weithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr rydych chi a'ch teulu yn dod i gysylltiad â nhw gartref, mewn meddygfeydd, mewn ysbytai, y gymuned, yr ysgol, ddyletswydd i gyfeirio unrhyw bryderon sydd ganddynt am blentyn mewn perygl o niwed neu'n profi niwed.

Os oes gan weithiwr proffesiynol bryderon am eich teulu, byddant yn eu hegluro i chi ac yn gofyn am eich caniatâd i gyfeirio at Wasanaethau Plant. Dim ond un rheswm na fyddant yn siarad â rhieni a gofawyr cyn iddynt gyfeirio eu pryderon a hyn yw os ydyn nhw'n credu y byddai'n cynyddu'r risg o niwed i'r plentyn neu rywun arall.

Gwyddom y gall teuluoedd gael anawsterau ar adegau ac angen cymorth ychwanegol. Gall hyn fod am bob math o resymau fel colli anwylyd, cael problemau ariannol, chwalu perthnasoedd yn y teulu, problemau iechyd meddwl ac emosiynol, defnyddio alcohol neu gyffuriau.



Nid yw'r mwyafrif o deuluoedd sy'n cael eu cyfeirio at Wasanaethau Plant yn y pen draw yn ymwneud â gweithiwr cymdeithasol gan fod yna lawer o wasanaethau eraill yn y Fwrdeistref a all helpu teuluoedd.

Ym Merthyr Tudful, mae gweithwyr proffesiynol, gwirfoddolwyr ac aelodau o'r cyhoedd yn cyfeirio unrhyw bryderon sydd ganddynt am blentyn at yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth (MASH). Yn yr Hwb mae gweithwyr cymdeithasol, swyddogion heddlu, gweithwyr proffesiynol o iechyd ac addysg a gwasanaethau oedolion.



Pan fydd gweithiwr cymdeithasol y Gwasanaethau Plant yn derbyn y wybodaeth bod gan weithiwr proffesiynol, gwirfoddolwr neu aelod o'r cyhoedd bryderon am blentyn, byddant yn gwirio eu cofnodion eu hunain i weld a oes gan y plentyn weithiwr cymdeithasol eisoes. Os felly, bydd y wybodaeth yn cael ei throsglwyddo'n syth i'r gweithiwr cymdeithasol hwnnw.

Os nad yw'r plentyn yn hysbys i Wasanaethau Plant neu os oedd yn hysbys o'r blaen, yna bydd y gweithiwr cymdeithasol yn gwirio gydag asiantaethau eraill fel yr heddlu, iechyd ac addysg i weld a ydyn nhw hefyd yn poeni am y teulu hwn.

Unwaith y bydd y gweithiwr cymdeithasol wedi casglu'r wybodaeth hon, byddant yn siarad â rhieni a gofawyr i weld pa fath o gefnogaeth maen nhw'n teimlo fyddai'n ddefnyddiol oni bai y byddai hyn yn cynyddu'r risg o niwed i rywun. Yna byddant yn gwneud penderfyniad ynghylch y gwasanaethau mwyaf priodol i'r teulu. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddwch yn cael eich cyfeirio at wasanaethau eraill fel yr Hwb Cymorth Cynnar, Dechrau'n Deg ac eraill.

Mae yna adegau pan mae'r wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu yn ein gwneud ni'n bryderus iawn am ddiogelwch plentyn. Os felly, mae gennym drafodaeth gydag asiantaethau eraill a gelwir hyn yn 'drafodaeth strategaeth'. Bydd y cyfarfod hwn yn rhannu gwybodaeth ar draws asiantaethau ac yna'n penderfynu a oes angen ymchwiliad amddiffyn plant. Weithiau mae hyn yn cael ei wneud gan yr Heddlu a Gwasanaethau Plant gyda'i gilydd ac weithiau mae'n cael ei wneud gan Wasanaethau Plant yn unig.



Os oes gan blentyn anafiadau corfforol, bydd hyn yn cael ei drafod gyda Pediatregydd ac efallai y bydd y plentyn yn cael archwiliad meddygol. Bydd angen i weithiwr cymdeithasol gwblhau asesiad o'r teulu p'un a yw hwn yn 'ymchwiliad amddiffyn plant' neu os yw asiantaethau yn llai pryderus ond eisiau gweld a all y teulu gael ei gefnogi gan asiantaethau eraill i oresgyn eu trafferthion.